Cyfarwyddyd

Friends of the Earth Cymru

Cyfeillion y Ddaear Cymru

Cyfiawnder Cynllunio i Gymru

Yr Achos am Hawliau Apelio Trydydd Person yn y System Gynllunio yng Nghymru

---

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn ysbrydoli atebion i broblemau amgylcheddol, sy'n gwneud bywyd yn well i bobl

Cyfeillion y Ddaear Cymru:

- **yn ymroddedig i ddiogelu'r amgylchedd a hyrwyddo dyfodol cynaliadwy ar gyfer Cymru**
- **yn rhan o fudiad ymgyrchu amgylcheddol mwyaf dylanwadol y DG**
- **yn rhan o'r rhwydwaith amgylcheddol mwyaf eang yn y byd, gyda dros 60 o fudiadau cenedlaethol ar draws pum cyfandir**
- **yn cefnogi rhwydwaith unigryw o grwpiau lleol sy'n ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru**
- **yn dibynnu ar unigolion am dros 90% o'i incwm**

I ymuno neu wneud cyfraniad, ffoniwch ni ar 0800 581 051

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Oriel Arcêd y Castell Caerdydd CF10 1BY
Ffôn 029 2022 9577 Ffacs 029 2022 8775 Ebost cymru@foe.co.uk Gwefan www.cyddcymru.co.uk
Cyfeillion y Ddaear Cyfyngedig Cofrestrwyd yn Llundain Rhif 1012357
Swyddfa Gofrestredig 26-28 Underwood Street Llundain N1 7JQ
Argraffwyd ar bapur wedi ei wneud yn llwyr o wastraff defnyddwyr
Medi 2002

Cyflwyniad

Y system gynllunio yw un o'r rhannau mwyaf pwysig a dadleuol o lywodraeth leol. Mae penderfyniadau cynllunio yn llunio dyfodol cymdogaethau am genhedloedd ac mae ganddynt ganlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol mawr. Yn rhy aml mae'r penderfyniadau hyn yn fwriadol yn eithrio llais y gymuned leol.

Mae'r system gynllunio bresennol wedi ei phwyso'n drwm o blaid y datblygwr sector preifat sydd â'r arbenigedd proffesiynol a'r adnoddau i dra-arglwyddiaethu'r broses gynllunio leol. Mae'n hynod annheg bod gan y rheini sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio hawl freintiedig i apelio yn erbyn cyngor lleol pan wrthodir eu cais. Nid oes gan unigolion na chymunedau sy'n gwrthwynebu'r un hawl. Mae'r anghydbwysedd hwn yn atgyfnerthu'r syniad o'r system gynllunio fel rhywbeth caeedig, ynysig a gyda diddordeb mewn atgyfnerthu grym y rhai hynny sydd â buddiannau eiddo mawr yn unig.

Mae datblygiadau sy'n cynnwys cyfranogiad cymunedol gwirioneddol yn gaffaeliad i adfywio ardaloedd. Ond rhaid i'r broses gynllunio hefyd roi hawliau cywiro pan aiff y broses o wneud penderfyniadau yn anghywir. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn benderfynol o weld system gynllunio sy'n deg, yn dryloyw ac yn agored i bob rhan o'r gymuned. Bydd ymdrechion i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn cynllunio yn methu oni bai y caiff ei chefnogi gan hawliau apelio gwirioneddol ar gyfer y cyhoedd. Nid yw cyflwyno hawliau o'r fath yn gyfreithiol ac yn weinyddol gyraeddadwy yn unig, maent yn rheidrwydd moesol.

Mae'r brîff hwn yn rhoi cyflwyniad i'r system gynllunio yng Nghymru ac yn esbonio pam fod angen dybryd am fwy o hawliau apelio yn y system honno. Yna mae'n amlinellu polisi Cyfeillion y Ddaear ar hawliau trydydd person. Mae'n adeiladu ar ymchwil a noddwyd gan goalisiwn o grwpiau amgylcheddol, cymunedol a chyfreithiol ac yn cynnig fframwaith sy'n bosib ei weithio ac wedi ei ddiffinio'n glir ar gyfer cyflwyno hawliau o'r fath.

Y system gynllunio yng Nghymru

Hyd 1998 roedd system gynllunio Cymru yn y bon yr un fath a honno yn Lloegr. Cyhoeddwyd y rhan fwyaf o cyfarwyddyd polisi cynllunio cenedlaethol ar y cyd rhwng y Swyddfa Gymreig a'r adran berthnasol yn Whitehall. Yn 1998 rhoddodd Deddf Llywodraeth Cymru y cyfrifoldeb am weinyddu cynllunio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r prif ddeddfwriaeth ar gyfer strwythur cynllunio yn parhau yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel ag y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio ac Iawndal 1991).

Pwy sydd â Hawliau mewn Cynllunio?

Mae gan Awdurdodau Lleol rymoedd i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar gynllun lleol statudol. Caiff y penderfyniad terfynol ynglyn â chais cynllunio ei wneud gan wleidyddion lleol ond wedi ei seilio ar farn ddylanwadol swyddogion cynllunio proffesiynol. Mae'r fframwaith polisi ar gyfer penderfyniadau yn angenrheidiol o gymhleth ond mae dealltwriaeth fud y dylid caniatáu cynllunio oni bai y byddai'n niweidio buddiannau pwysig.

Os gwrthodir y sawl sy'n gwneud cais yna gallant apelio i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd sydd â grym dirprwyedig y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff apeliadau eu harolygu gan yr Arolygaeth Gynllunio ac fe'i clywir gan ymchwiliadau cyhoeddus neu drwy gynrychioliadau ysgrifenedig. Yn y pen draw gall yr Arolygaeth Gynllunio argymell Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio y Cynulliad (gweler blwch 1) i gefnogi neu wrthod yr apêl.

Blwch 1

Mae Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio'r Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys pedwar Aelod Cynulliad (fel arfer ar draws y pleidiau gwleidyddol) a chaiff ei ethol o'r newydd ar gyfer pob apêl neu gais (neu grwp o apeliadau/ceisiadau). Caiff aelodau eu dewis o'r Panel Penderfyniadau Cynllunio sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth.

Cyfeirir at y person sy'n gwneud y cais cynllunio fel y person cyntaf, yr awdurdod lleol yw'r ail berson ac unrhyw unigolyn, busnes neu grwp cymunedol sy'n gwrthwynebu'r cais yw'r trydydd person.

Nid oes gan drydydd person hawl apelio pan ganiateir caniatâd cynllunio. Fe allant wneud cwyn gydag ombwdsman y llywodraeth leol ond hyd yn oed os cefnogir hwn ni all wyrdroi y penderfyniad cynllunio. Fe allant hefyd geisio adolygiad barnwrol drwy'r llysoedd ond mae hyn yn hynod o ddrud a gall ond archwilio materion gweithdrefnol.

Pam nad yw'r system gyfredol yn caniatáu hawliau apelio trydydd person?

Pan gyflwynwyd y system gynllunio yn 1974 fe wladolwyd yr hawl i ddatblygu bob tir. Roedd yn rhaid cydbwyso'r cam radical yma gyda thaliadau iawndal sylweddol i berchnogion tir a drwy hawl apelio i ddiogelu buddiannau perchnogion eiddo. Yn dyngedfennol, cymerwyd yn ganiataol:

- Y byddai cynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd bob amser yn gweithredu er lles y cyhoedd.

- Y byddai swyddogion cynllunio proffesiynol yn gweithredu i reoli gwleidyddion drwy sicrhau proses wneud penderfyniadau rhesymol a diduedd.

Er bod atebolrwydd democrataidd yn parhau i fod yn un o'r egwyddorion pwysicaf yn y broses gynllunio, dangoswyd o brofiad bod y gymuned angen amddiffyniadau ychwanegol i ddiogelu ei buddiannau cyfreithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cyfnod pan fo llawer yn teimlo'n eithriedig o'r broses ddemocrataidd gyda dim ffydd mewn cyngor proffesiynol. Mae amddiffyniadau ychwanegol yn bwysig iawn yn yr achosion hynny pan fod gan yr awdurdod lleol wrthdrawiad amlwg mewn buddiannau, ac yn yr achosion hynny sy'n ymwneud ag effeithiau amgylcheddol cymhleth ar raddfa fawr sy'n herio arbenigedd y swyddogion cynllunio.

Mae'r galw am hawl apelio amodol trydydd person wedi cryfhau dros yr ugain mlynedd diwethaf ac mae wedi cael cefnogaeth nid gan grwpiau amgylcheddol a chymunedol yn unig ond hefyd gefnogaeth y proffesiwn cyfreithiol, academyddion cynllunio blaenllaw, pwyllgorau dethol Ty'r

Cyffredin a gan groestoriad eang o bleidiau gwleidyddol. Ym mis Ionawr 2002 cyhoeddodd grwp o fudiadau nad sy'n rhan o'r llywodraeth ac yn cynnwys Cyfeillion y Ddaear, CPRE, RSPB a Sefydliad Cyfraith Amgylcheddol adroddiad pwysig oedd yn dadansoddi yr achos am hawliau trydydd person. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod dadl gref dros gyflwyno hawliau o'r fath ac y gellid gwneud hyn heb gostau gweinyddu nac oedi gormodol. Pwysleisiodd y cynigion yr angen i amodi yr hawl apelio i ganolbwyntio ar y rheini sydd â diddordeb cyfreithiol mewn achos ac ond ar yr achosion hynny sydd ag effeithiau amgylcheddol mawr neu sy'n cynrychioli gwrthdrawiad buddiannau ar gyfer yr awdurdod lleol.

Yr angen am Hawliau Apelio Trydydd Person yng Nghymru

Yng Nghymru ar hyn o bryd mae dau amddiffyniad democrataidd ar geisiadau cynllunio; yr awdurdod cynllunio lleol (unai awdurdod unedol neu Awdurdod Parc Cenedlaethol) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Amddiffyniad ar awdurdodau lleol

Mynnwyd hawl apelio trydydd person yn aml oherwydd, ers ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, bu nifer o achosion uchel eu proffil gydag awdurdodau lleol yn rhoi caniatâd cynllunio unai iddynt hwy eu hunain neu ar dir y mae ganddynt ddiddordeb ariannol ynddo. Un enghraifft amlwg yw Ysgol Uwchradd John Bright yn Llandudno, ble y rhoddodd Gyngor Sir Conwy ganiatâd iddo'i hun i adeiladu ysgol newydd ar safle tomen oedd wedi ei ail-hawlio, gwaith nwy a llosgydd tra'n rhoi hawl i ddatblygwyr archfarchnad i adeiladu ar safle'r hen ysgol – gan godi pris yr hen safle'r ysgol oedd yn eiddo i'r cyngor. Gwrthododd y Cynulliad Cenedlaethol alw'r cais cynllunio i mewn er i drigolion lleol ac ymgyrchwyr ofyn dro ar ôl tro.

Amddiffyniad ar y Cynulliad

Ar hyn o bryd, mae'r grym i alw cais cynllunio i mewn i'w ystyried gan y Cynulliad yn llwyr yn nwylo'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Mae'r Gweinidog yn aelod o Lywodraeth y Cynulliad ac wedi ei benodi gan Brif Weinidog Cymru. Fel ac y gall yr awdurdod lleol gael diddordeb (unai ariannol neu wleidyddol) mewn cais cynllunio, hefyd gall y Cynulliad Cenedlaethol, Llywodraeth y Cynulliad neu ystod o Gyrff Cyhoeddus sydd wedi eu noddi gan y Cynulliad (ASPB).

Mae ond yn iawn bod y Cynulliad, unai'n uniongyrchol neu drwy ASPB, yn gwneud pethau sy'n gofyn am ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, yn anochel fe fydd cyfnodau pan fydd rôl y Cynulliad fel asiant ar gyfer newid yng Nghymru yn gwrthdaro, neu o leiaf yn ymddangos fel gwrthdaro, gyda'i rôl fel awdurdod cynllunio terfynol y genedl.

Mae nifer o enghreifftiau o geisiadau cynllunio dadleuol yng Nghymru gafodd eu gwneud unai gan, neu gyda chefnogaeth gyhoeddus gan, y Cynulliad neu ASPB. Mae astudiaeth achos Legend Court ym Mlwch 2 yn rhoi enghraifft o sefyllfa y byddai gweithrediad Cynulliad wedi gwrthwynebu gweithredoedd ei Gwango ei hun. Derbyniodd y cais hwn gefnogaeth lawn gan ASPB oedd yn gweithredu ar gyfarwyddyd ei feistri yn y Llywodraeth (yn yr achos yma cyfarwyddyd hen iawn gan Lywodraeth flaenorol).

Roedd sefydlu Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio y Cynulliad yn gam a groesawyd i ddadwleidyddu

penderfyniadau cynllunio ac mae'n rhoi ffrwyn bwysig ar rym Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r penderfyniad i alw cais i mewn yn gorwedd ar hyn o bryd gyda'r Gweinidog yn unig. O ystyried rôl y Cynulliad mewn annog datblygiadau, bydd amheuon yn parhau ynghylch annibyniaeth Gweinidogion y Cynulliad mewn penderfynu i alw ceisiadau cynllunio i mewn yn y lle cyntaf.

Blwch 2

Parc Thema Legend Court, Magwyr

Yn 1998, cyflwynodd y cwmni Legend Court gais cynllunio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd i adeiladu parc thema mawr ar dir amaethyddol ger traffordd yr M4. Gwrthwynebodd trigolion ac amgylcheddwyr ar sail y byddai parc thema o'r fath yn cynyddu lefelau traffig yn aruthrol mewn ardal sydd eisoes yn llawn traffig, ac y byddai'r adeiladu yn golygu colli bywyd gwyllt a mwynder yn yr ardal. Roedd llawer o'r trafod ynglyn â'r cais wedi ei ganoli o gwmpas ymarferoldeb cynlluniau'r cwmni ar gyfer y parc thema. Trodd Cyngor Casnewydd at Fwrdd Croeso Cymru am gyngor. Sicrhaodd y Bwrdd Croeso yr awdurdod lleol ei fod wedi archwilio cynllun busnes y cwmni a'i fod yn gadarn. Fodd bynnag, wedi archwiliad manylach gan Gyfeillion y Ddaear Cymru, daeth yn amlwg bod y Bwrdd Croeso wedi chwarae rôl allweddol yn cynghori'r cwmni ar sut y dylai ysgrifennu ei gynllun. Yn wir, roedd y Bwrdd Croeso yn gweithredu gyda'r bwriad o ddenu parc thema mawr i Gymru ar sail llythyr o gyfarwyddyd yr oedd wedi ei dderbyn gan John Redwood Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn 1995.

Cais Cwrs Golff y Cwpan Ryder

Ym mis Mehefin 2001, cymeradwyodd Cyngor Casnewydd gais ar gyfer estyniad i gwrs golff oedd yn bygwth creu difrod i'r Afon Wysg, ardal a bennwyd fel Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae'r Wysg wedi ei phennu fel ymgeisydd Ardal Arbennig o Gadwraeth, yn unol â chyfraith Bywyd Gwyllt Ewropeaidd ar gyfer nifer o rywogaethau o bysgod prin ac roedd y cynlluniau yn bygwth y boblogaeth fregus o ddyfrgwn. Roedd y cwrs golff i gael ei ehangu er mwyn bodloni cais Cymru i ddenu Cystadleuaeth Cwpan Ryder nodedig yn 2009. Dechreuodd y ddadl wrth i drigolion lleol gwyno am effaith posib traffig ar eu cartrefi a gwrthwynebodd grwpiau bywyd gwyllt oherwydd gallai'r cynlluniau niweidio safle bywyd gwyllt o bwysigrwydd rhyngwladol. Nid oedd yn syndod i sylwedyddion Cyngor Casnewydd bod y cais ar gyfer datblygiad mor uchel ei broffil wedi cael ei gymeradwyo gan gynghorwyr. Roedd cynlluniau'r dref i gynnal Cwpan Ryder i chwarae rôl ganolog yn ei ymdrech i ddod yn ddinas yn 2002. Mewn amgylchiadau o'r fath byddai rhywun yn disgwyl i'r cais cynllunio gael ei alw i mewn gan y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, mae Prif Weinidog a Gweinidog Chwaraeon y Cynulliad wedi lleisio'u cefnogaeth i'r Cwpan Ryder i ddod i'r cwrs. Derbyniodd y cais gefnogaeth gan

Byddai darpariaeth hawl apelio amodol trydydd person yn rhoi cydbwysedd yn y system fyddai ond o fudd i'r ymarfer tryloyw o ddemocratiaeth a chyfiawnder yn y system gynllunio.

Y cynigion

Pwy all apelio?

Dim ond y rheini sydd wedi gwrthwynebu'r cais cynllunio gwreiddiol.

Pa fath o achosion gellir eu hapelio?

- Ceisiadau pan fod gan awdurdodau wrthdrawiad buddiannau. Mae'r rhain yn cynnwys: pan mai hwy sy'n gwneud y cais, bod ganddynt ddiddordeb mewn cwmni sy'n gwneud cais am ganiatâd cynllunio, pan mai'r awdurdod lleol sydd biau'r tir a bod ganddo ddiddordeb mewn cynyddu ei werth ased ac achosion ble y bydd yr awdurdod lleol yn elwa drwy daliadau cyfalaf sylweddol trwy oblygiadau cynllunio

- Achosion ble mae'r awdurdod lleol yn rhoi caniatâd cynllunio yn erbyn ei bolisi cynllun datblygu ei hun. Yn ddamcaniaethol gall y cyhoedd gymryd rhan mewn cynlluniau datblygu a gwrthwynebu mewn cam cynnar. Gall gwrthod y cynllun danseilio ymglymiad y cyhoedd ac felly creu yr angen am hawl i gywiro.

- Achosion sydd ag effeithiau amgylcheddol mawr. Caiff yr achosion hyn eu diffinio gan yr angen i gyflwyno asesiad effaith amgylcheddol.

- Achosion ble mae swyddog wedi argymell gwrthod ac aelodau etholedig wedi gwyrdroi y penderfyniad hwn.

Sut y penderfynir ar apeliadau?

- Dylai fod ymgynghoriad gyda datblygwyr a thrydydd personau ynghylch os y dylai apeliadau gael eu clywed drwy gynrychiolaethau ysgrifenedig neu wrandawiadau llafar.

A fyddai cyfyngiad amser?

- Byddai gan drydydd person 28 diwrnod o'r penderfyniad i roi caniatâd cynllunio i apelio.

A fyddai'n costio i apelio?

- Er mwyn cyfyngu ar apeliadau bychan neu flinderus fe fyddai un ffi o £30 yn daladwy gan y trydydd person.

Fyddai'r trydydd person yn atebol am gostau?

- Mewn egwyddor, ni ddylai trydydd person fod yn amodol i gostau diderfyn gan y byddai hyn yn rhwystro unrhyw un rhag apelio. Ni ddylid gosod costau ar gynrychioliadau ysgrifenedig ond bydd gan yr arolygydd cynllunio y disgresiwn i ddyfarnu costau i unrhyw berson am ymddygiad afresymol mewn gwrandawiad llafar.

Pum Myth Mawr am Drydydd Person

"Byddai hawliau trydydd person yn dod â'r system gynllunio i stop."

Byddai'r hawl i apelio a ddisgrifir uchod wedi ei gyfyngu i nifer fechan iawn o'r holl geisiadau cynllunio (rhwng 1-5%). Ni fyddai ceisiadau cartrefi cyffredin yn destun hawliau apelio.

"Byddai hawliau trydydd person yn dod ag oedi sylweddol i'r broses apelio."

Gallai hawliau trydydd person gynyddu nifer yr apeliadau ond oherwydd y cyfyngiadau llym ni fyddai'r cynydd yn ddramatig. Mae effeithlonrwydd a chyflymder y broses apelio wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac nid oes rheswm i'r sialensiau trydydd person greu oedi gormodol.

"Mae hawliau trydydd person wedi bod yn drychinebus mewn mannau eraill."

Mae hawliau trydydd person wedi bodoli yng Ngweriniaeth Iwerddon ers y 1930au a chânt eu gweinyddu'n llwyddiannus yn Nenmarc, Sweden, Seland Newydd a rhannau o Awstralia. Mae'r hawliau apelio a awgrymir yn y brîff hwn yn llawer mwy Ceidwadol nac yn y gwledydd eraill yma.

"Byddai hawliau trydydd person yn siartr ar gyfer 'dim yn fy ardal i' "

Byddai'n rhaid i unrhyw drydydd person sy'n ceisio apelio lunio dadl gynllunio glir a phendant i berswadio'r Arolygaeth Gynllunio. Dim ond yr apeliadau gyda haeddiant clir fyddai'n cael eu caniatau. Mae hawliau trydydd person yn rhoi cyfle i brofi penderfyniadau: nid yw'n rhoi dylanwad gormodol i gymunedau lleol nac unigolion.

"Mae cyflwyno hawliau trydydd person yn tanseilio rôl cynghorwyr a etholwyd yn ddemocrataidd."

Mae'r brîff hwn wedi dangos yn glir y byddai hawliau trydydd person ond yn cael eu defnyddio mewn achosion pan fod gan yr awdurdod a'i aelodau etholedig wrthdrawiad buddiannau, neu pan fo angen amddiffyniadau ychwanegol oherwydd graddfa effeithiau amgylcheddol y cynnig. Byddai aelodau etholedig yn parhau i chwarae rôl hynod ddylanwadol yn y broses a byddai cyfreithlondeb y penderfyniad bob tro'n debygol o greu argraff ar arolygydd. Mae hefyd yn arwyddocaol bod llawer o wleidyddion lleol yn croesawu'r cyfle i benderfyniad cynllunio dadleuol gael ei brofi mewn amgylchedd mwy agored gwrandawiad cyhoeddus.

Manteision hawliau trydydd person

Yn ogystal â'r ddadl egwyddorol ynglyn â thegwch a chyfiawnder, byddai cyflwyniad hawliau trydydd person yn gwneud nifer o gyfraniadau positif eraill i'r broses gynllunio:

- Byddent yn gymorth i ail-gysylltu cymunedau gyda phenderfyniadau cynllunio dadleuol drwy ddangos bod ganddynt rôl wirioneddol a grymus i chwarae.

- Bydd y rhagolygon o brofi manwl ar benderfyniadau yn gwella eu hansawdd a'u cyfreithlondeb. Yng Ngweriniaeth Iwerddon roedd oddeutu 25% o apeliadau trydydd person yn llwyddiannus. Mewn 33% pellach o achosion gwnaethpwyd addasiadau sylweddol i'r cynlluniau cyn iddynt dderbyn cymeradwyaeth. Nid dim ond diogelu cymunedau rhag penderfyniadau gwael y mae hawliau trydydd person, gallant hefyd wella cynlluniau er lles y gymuned gyfan.

Deddf Iawnderau Dynol a Cytundeb Aarhus

Mae'r Ddeddf Iawnderau Dynol 1998 a Chytundeb Aarhaus yn darparu hawliau ar gyfer gwrandawiad teg, proses ddyledus a chyfranogiad y cyhoedd. Nid yw'r sefyllfa cyfreithiol yn eglur eto ynghylch os yw hawl apelio trydydd person yn rheidrwydd y gofynion hyn. Bydd cyflwyniad hawl apelio amodol trydydd person nawr yn osgoi sialensiau cyfreithiol drud ac ansicrwydd yn y dyfodol a byddai'n llwyddo yn yr amcan o hawliau cyfartal a thegwch.

Goblygiadau Deddfwriaethol

Er mwyn cyflwyno hawl apelio trydydd person bydd hi'n angenrheidiol i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth gynradd unai drwy newidiadau syml i'r ddeddf sy'n bodoli eisoes neu drwy ddiogelu'r hawliau mewn mesur cynllunio newydd. Mae dogfen ymgynghori'r Cynulliad Cenedlaethol 'Cynllunio: Cyflawni dros Gymru' yn cydnabod yr angen am fesur cynllunio i Gymru i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r system sy'n bodoli. Byddai hyn yn ddibynnol ar amser Senedd y DG ond mae ei gyflwyniad yn cynrychioli cyfle gwirioneddol i gyflwyno hawl apelio trydydd person.

Casgliad

Mae cyflwyniad hawl apelio trydydd person yn ganolog i gael system deg, agored a modern i Gymru. Mae'r cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y brîff hwn yn synhwyrol, yn gymedrol ac yn bosib eu gweithio, gan daro'r cydbwysedd cywir rhwng yr angen am hawliau dynol a'r angen i gyfyngu hawliau o'r fath i'r achosion hynny ble y mae amddiffyniadau atebolrwydd democrataidd yr annigonol. Byddai sefydu hawl apelio trydydd person yn cydbwyso hawliau'r cymunedau lleol gyda hawliau'r datblygwr yn y system apeliadau.

Bydd yr ymgyrch i gyflwyno hawliau o'r fath yn brawf litmws o ymroddiad y Cynulliad Cenedlaethol i system gynllunio ddatblygol a chyfiawn. Ni allwn barhau yn cefnogi proses ble mae perchnogaeth yr eiddo yn cael hawliau dynol breintiedig. Mae sefyllfa o'r fath yn anarchiaeth wleidyddol sydd yn fwy addas ar gyfer y ddeunawfed ganrif na'r unfed ganrif ar hugain.

Ysgrifennwyd gan Dr Hugh Ellis a Julian Rosser ar gyfer Cyfeillion y Ddaear Cymru.
Ymchwil ychwanegol gan Phil Ward.